Cyngor Sir y Fflint

Gwasanaethau Cymdeithasol

# Siarter Rhianta Corfforaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

2025-2028



Dewch o hyd i ni ar

Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Beth yw Rhiant Corfforaethol? | 3 |
| Beth yw Siarter? | 3 |
| Ein haddewid i Blant a Phobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal yn Sir y Fflint | 4 |
| Ein Gwerthoedd | 4 |
| Fforwm Gwasanaethau Plant | 6 |
| Dyfodol Cadarnhaol | 7 |
| Dysgu a Chael Hwyl | 6 |
| Gwrando, Clywed a Deall | 8 |
| Perthnasoedd Ystyrlon, Hunaniaeth ac Ymdeimlad o Berthyn | 8 |
| Diogelu ac Amddiffyn | 10 |
| Iechyd Corfforol a Meddyliol | 10 |


Cymraeg

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg.
Gweler y dudalen Saesneg ar ein gwefan.

This document is also available in English.
See English page on our website.

# Cyflwyniad

Mae Sir y Fflint yn ymrwymo i helpu pob plentyn i gael magwraeth hapus, iach, a chyrraedd eu llawn botensial.  I'r rhai nad ydynt o bosibl yn gallu byw gyda'u teuluoedd neu sydd angen trefniant gofal gwahanol, mae'r Cyngor yn ymrwymo i'w trin fel eu teulu eu hunain.  Cytunir ar yr ymrwymiad hwn drwy'r Bennod Rhianta Corfforaethol - addewid i gefnogi a diogelu plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal.

# Beth yw Rhiant Corfforaethol?

Mae Rhianta Corfforaethol yn golygu fod pawb yn y sector cyhoeddus, hynny ydi, athrawon, doctoriaid, gweithwyr cymdeithasol a swyddogion yr heddlu, yn gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu a gwella bywydau plant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal.  Mae'n gyfrifoldeb ar bawb i sicrhau fod y plant a'r bobl ifanc hyn yn cael yr un cyfleoedd a hawliau ag eraill.

Mae'n galw ar y gymuned gyfan - gan gynnwys elusennau a busnesau - i weithredu gyda charedigrwydd, trugaredd a chyfrifoldeb fel y dylent.

# Beth yw Siarter?

Mae Siarter Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru fel addewid a wneir i blant a phobl ifanc sydd wedi derbyn gofal, ac mae'n cynnwys:

- **Egwyddorion** - Rheolau y mae'n rhaid i bob oedolyn a sefydliad eu dilyn i sicrhau fod y plant a'r bobl ifanc hyn yn ddiogel, hapus ac yn cael eu cefnogi.
- **Addewidion** - Mae'r rhain ar gyfer unrhyw grŵp (ysgolion, Cynghorau neu ysbytai) i ddangos fod hyn yn bwysig iddynt a'u bod yn awyddus i helpu plant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal.



# Ein haddewid i Blant a Phobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal yn Sir y Fflint

Mae Strategaeth Rhianta Corfforaethol Sir y Fflint yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi bod yn derbyn gofal i deimlo'n ddiogel ac yn obeithiol.  Mae'n canolbwyntio ar ddyfodol cadarnhaol, dysgu, perthnasoedd, diogelwch, iechyd a sicrhau fod pawb yn cael eu clywed a bod bob plentyn ac unigolyn ifanc yn barod ac yn cael eu cefnogi ar gyfer bywyd y tu hwnt i ofal.

# Ein Gwerthoedd

Mae strategaeth Sir y Fflint yn sicrhau fod bob partner yn dilyn gwerthoedd allweddol i wella bywydau pobl ifanc a helpu plant a phobl ifanc mewn gofal i gael dyfodol mwy disglair a chyflawni eu nodau.

**Ymroddiad:**
Byddwn bob amser yn gwneud ein gorau i sicrhau eich bod yn teimlo'n ddiogel, eich bod yn derbyn gofal, a'ch bod yn cael eich cefnogi.  Byddwn yn gofyn i ni'n hunain, "A fyddai hyn yn ddigon da i'm plentyn fy hun?" gan fod pobl ifanc yn bwysig.

**Gobaith ac Uchelgais:**
Byddwn yn credu ynoch chi a'ch breuddwydion! Rydym yn awyddus i'ch helpu i deimlo'n gyffrous am y dyfodol, rhoi cynnig ar bethau newydd ac anelu'n uchel.

**Parch:**
Byddwn yn garedig â chi ac yn eich parchu.  Byddwn yn gwrando ar yr hyn yr ydych yn ei ddweud, byddwn yn ystyried eich teimladau, ac yn eich cynnwys mewn penderfyniadau sy'n cael effaith arnoch chi.

**Cyfrifoldeb:**
Bydd pawb sy'n helpu i ofalu amdanoch yn gweithio gyda'i gilydd fel tîm. Byddwn yn sicrhau fod ein cynlluniau a'n penderfyniadau'n deg a byddwn bob amser yn ceisio gwneud y peth gorau i chi.





# Fforwm Gwasanaethau Plant

Rydym yn gwneud addewidion mawr i helpu plant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal   ac rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn cadw atynt!

Dyna pam fod gennym y Fforwm Gwasanaethau Plant.  Mae'n cynnig gofod diogel lle gallwch:

- Ddweud eich dweud am y pethau sy'n gweithio a'r pethau nad ydynt yn gweithio.
- Gwirio ein bod yn gwneud y pethau y dywedom ni y byddem yn eu gwneud.
- Ein helpu i wella sut rydym yn gofalu am blant a phobl ifanc.

Mae plant a phobl ifanc o'n Fforwm Gwasanaethau Plant sydd wedi bod mewn gofal wedi ein helpu i ysgrifennu'r addewidion hyn. Bob blwyddyn, byddwn yn gwirio ein cynnydd ac yn trafod hyn â'r Fforwm.



Dyma ein haddewidion penodol i chi:

### Dyfodol Cadarnhaol

**Mae gan ein plant a'n bobl ifanc rywle diogel, sefydlog a gofalgar y gallant fyw yno a'i alw'n gartref.**

**Mae pobl ifanc yn gadael gofal ac yn datblygu i fod yn oedolion annibynnol sy'n ffynnu.**

Byddwn yn eich cefnogi drwy eich helpu i gynllunio ar gyfer tai i'r dyfodol, ennill profiad gwaith a chael mynediad at gyfleoedd gwaith - gan gynnwys sicrwydd cyfweliadau â'r Cyngor. Bydd gennych gynllun gofal personol i ddatblygu annibyniaeth a chanolbwyntio ar y pethau sy'n bwysig i chi, o ffrindiau a chyllid i deithio a dysgu i yrru.

### Dysgu a Chael Hwyl

**Mae plant a phobl ifanc yn cael pob cyfle i gyflawni eu potensial llawn, ennill hyder a sgiliau ar gyfer eu dyfodol.**

**Mae plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gael hwyl a chymryd rhan mewn gweithgareddau a'r pethau y maent yn eu mwynhau.**

Byddwn yn eich cefnogi i aros yn yr ysgol, cael mynediad at gymorth iechyd meddwl a chysylltu ag oedolion dibynadwy. Mae ysgolion yn creu cynlluniau wedi'u teilwra, a bydd cynlluniau gofal yn cynnwys eich nodau personol. Cewch eich annog i olrhain addysg, diddordebau a gweithgareddau hwyl, gyda chymorth gan Gwella, Gwasanaethau Ieuenctid a Theatr Clwyd.

## Gwrando, Clywed a Deall

**Mae plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael lleisio eu barn a'u bod yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi yn y penderfyniadau sy'n cael effaith arnyn nhw.**

**Mae plant a phobl ifanc yn dweud eu dweud ac yn siapio'r ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u darparu.**

Rydym yn addo gwrando arnoch chi a defnyddio eich teimladau a'ch syniadau i arwain penderfyniadau. Cynhelir adolygiadau gofal mewn llefydd cyffyrddus, nid ysgolion. Mae'r ap Mind of My Own yn cynnig ffordd ddiogel i rannu unrhyw bryd. Mae adborth, boed yn dda neu'n ddrwg, yn helpu i wella cefnogaeth i bobl ifanc.

## Perthnasoedd Ystyrlon, Hunaniaeth ac Ymdeimlad o Berthyn

**Gall plant a phobl ifanc ddatblygu perthnasoedd dibynadwy â phobl sy'n bwysig iddynt yn eu bywydau.**

**Mae plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u bod yn falch o bwy ydyn nhw.**

Byddwn yn eich helpu i greu proffil personol i amlygu eich cryfderau, eich diddordebau a'ch breuddwydion, gan arwain gweithgareddau hwyliog, datblygu sgiliau, a chefnogaeth. Bydd gofalwyr yn ei ddefnyddio i'ch deall yn well. Caiff eich llwyddiannau eu dathlu - yn arbennig yn y digwyddiad Balchder Sir y Fflint blynyddol. Byddwch yn gallu rhannu eich barn yn y Fforwm Gwasanaethau Plant, archwilio eich Hanes Bywyd, a theimlo'n falch o'ch cefndir a'ch diwylliant.



## Diogelu ac Amddiffyn

**Mae plant a phobl ifanc yn teimlo’n ddiogel ac wedi’u hamddiffyn rhag niwed, camdriniaeth a chamfanteisio.**

**Bydd plant a phobl ifanc yn teimlo’n rhan o’u cymuned.**

Byddwn yn cynnig cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i chi, gan sicrhau eich bod yn deall y cyfleoedd sydd ar gael. Caiff staff eu hyfforddi i atal camfanteisio, gan gynnwys ar-lein, a byddwch yn derbyn canllawiau i aros yn ddiogel. Mae’r Cyngor yn gweithio gyda’r heddlu a phartneriaid i ddarparu cefnogaeth garedig ac effeithiol lle bo angen. Mae lleisiau pobl ifanc yn siapio ymdrechion trosedd a diogelwch, a bydd penderfyniadau cadarnhaol yn helpu i atal trafferthion. Mae Sir y Fflint hefyd yn ymestyn gofal maeth a chartrefi gofal, i’ch helpu i aros yn agos at eich anwyliaid.

## Iechyd Corfforol a Meddyliol

**Bydd plant a phobl ifanc yn teimlo’n iach yn gorfforol ac yn feddyliol.**

**Bydd plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a’u hannog i gael mynediad at y gwasanaethau, gweithgareddau a’r cyfleoedd iechyd, ffitrwydd a lles sydd eu hangen arnynt neu y maent yn dewis eu harchwilio.**

Byddwn yn cefnogi eich iechyd meddyliol a chorfforol drwy gynnig staff hyfforddedig i wrando arnoch, a darparu mynediad at wasanaethau lles a chanllawiau iechyd clir. Wrth i chi ddatblygu’n oedolion, byddwn yn sicrhau fod gennych feddyg teulu, deintydd ac optegydd, a byddwn yn eich helpu i wneud dewisiadau gwybodus am eich iechyd. Bydd gennych reolaeth dros y gefnogaeth yr ydych yn ei derbyn.

** am restr lawn o’r ymrwymiadau, gweler y ddogfen Strategaeth Rhianta Corfforaethol.

